

Pwy sydd wrth y llyw?

“Am hynny, rhaid inni beidio â chysgu, fel y rhelyw, ond bod yn effro a sobr.”
(adn. 6)

Beth am ddarlflen 1 Thesaloniaid 5:1–11 ac yna myfyrio

Ddoe, bu inni sôn am y gwirionedd nad oes y fath beth â rhyddid i’w gael heb fesur o hunanddisgyblaeth. Mae’r bobl hynny sydd eisiau ennill rhyddid trwy annisgyblaeth yn rhydd yn yr ystyr y mae cwch yn rhydd pan fo’r helm wedi ei cholli. Mae’n rhydd i hwylio i unrhyw le, yn rhydd i hwylio ar y creigiau. Mae rheol y môr yn gymwys i fywyd hefyd. Gwyliwch am yr helm neu fe fydd raid gwylio’r creigiau.

Yn ôl un Cristion o America, Elton Trueblood: “Mae’r person sydd heb ddisgyblaeth yn medru eistedd wrth y piano, ond nid yw yn rhydd i daro’r nodau fel ag y dylai. Nid yw’n rhydd oherwydd nid yw wedi talu y pris angenrheidiol i ennill y rhyddid hwnnw.” Mae llawer o unigolion wedi siarad am bwysigrwydd ‘disgyblaeth’. Yn ôl y gŵr a gydnabyddir fel yr un cyntaf i oresgyn mynydd Everest, Edmund Hillary, roedd ei gariad at ddringo mynyddoedd yn deillio, yn ei eiriau ei hunan, o’r ffaith ei fod: “nid yn concro’r mynydd ond yn concro’r hunan.” Mae Pedr Fawr o Rwsia yn cael ei ddyfynnu mewn un man fel un oedd yn tystio: “Rwyf wedi concro ymerodraeth ond wedi methu â choncro’r hunan.” Yn ôl Hugo Grotius, gŵr o’r Iseldiroedd oedd yn enwog fel academydd: “Ni all gŵr reoli cenedl os na all reoli dinas. Ni all reoli dinas os na all reoli ei deulu. Ni all reoli ei deulu os na all reoli ei hunan, ac ni all reoli ei hunan os nad yw ei nwydau wedi eu darostwng i reswm.”

Wrth edrych trwy lyfr o ddyfyniadau, mae yna enghreifftiau lu o bobl sydd wedi pwysleisio’r angen am ddisgyblaeth, ond nid oes yr un o’r dyfyniadau i’w gymharu gyda’r un sydd i’w gael yn Llyfr y Diarhebion. Fe ddywed Solomon: “Fel dinas wedi ei bylchu a heb fur, felly y mae dyn sy’n methu rheoli ei dymer.” (Diarhebion 25:28). Ni fu ac ni fydd bywyd unrhyw un yn fywyd sy’n rhagori heb iddo adnabod hunanddisgyblaeth.

Beth am fynd ymlaen i ddarlflen:

Diar. 24:30–34; 1 Tim. 1:18–20; Heb. 6:7–12

Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Sut mae rhai yn peri i’w ffydd fynd yn llongddrylliad?
2. Sut mae profi bendithion Duw?

Gweddi

O Dad, rwy’n hiraethu am gael gosod ffydd arwynebol o’r tu cefn i mi. Dwi ddim am fod fel dinas â’i muriau wedi’u chwalu. Yn hytrach, rwyf am fod fel dinas ar fryn yn cael ei chodi beunydd gan dy nerth a’th ras di ac yn cael ei rheoli gan hunanddisgyblaeth. Yn enw Iesu. Amen.